**Sesiwn 2001-2002 (04)**

**Dydd Iau, 17 Mai 2001**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon**
Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 4, a 10 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiynau 7,8 a 9.

**9.22am**
**Eitem 2**
**Cwestiynau Llafar i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
Atebwyd y 5 cwestiwn cyntaf

**9.40am**
**Pwynt o Drefn**
**Peter Law** ar atebion Gweinidogion i gwestiynau llafar.

**9.42am**
**Eitem 3**
***Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo:***
*NDM662* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. *Yn cymeradwyo*:

   **Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2001; ac yn

   Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n achosi pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio)

(Diddymu) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001.

2. *Yn cymeradwyo*:
**Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach (Diddymu) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2001; ac yn

Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n achosi pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach (Diddymu) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O Blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 31

**Cymeradwywyd y cynnig cyfansawdd**

**9.43am**
**Eitem 4**
**Adolygu Rheolau Sefydlog 6.3 a 6.26**
*NDM660* Cynnig bod y Cynulliad, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 34:

(1) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Ebrill 2001; a

(2) yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r rheolau sefydlog;

**Rheol Sefydlog 6.3**

1. Cynnwys is-baragraff (iii) newydd

   (iii) Ysgrifennydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb penodol am fusnes i ateb cwestiynau yn ymwneud â'i gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi, heblaw am fusnes, sydd i'w hateb ar lafar o leiaf unwaith, ac am o leiaf 5 munud, bob pedair wythnos pan fydd y Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfodydd llawn;

2. Ailrifo'r is-baragraffau sy'n weddill.

**Rheol Sefydlog 6.26**

3. Ar ôl "i unrhyw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad" dileu "heblaw’r Trefnydd"
4. Ar ôl "unrhyw fater sy'n ymwneud" dileu "â'u cyfrifoldebau" a gosod "â’i gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi" yn ei le.

5. Ar ôl "ei chyfrifoldebau hi" gosod "(gellir gofyn cwestiynau llafar i’r Trefnydd dim ond ar faterion yn ymwneud â’i gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi heblaw am fusnes)"

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O Blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 34

**Cymeradwywyd y cynnig gyda'r mwyafrif o ddwy ran o dair yr oedd ei angen**

**9.44am**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Eitem 5**
**Dadl ar Flaenraglen Waith Strategol y Pwyllgorau**
*NDM661* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, yn nodi Blaen-raglenni Gwaith Strategol ac Adroddiadau Cynnydd Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Datblygu Economaidd, Addysg a Dysgu Gydol Oes, a’r Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, a anfonwyd dros yr e-bost at yr Aelodau ar 10 Mai 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O Blaid 33; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 33

**Cymeradwywyd y cynnig**

**10.48am**
**Eitem 6**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
*NDM659* Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei bryder difrifol ynghylch effaith polisïau ariannol, cyllidol a gwariant cyhoeddus llywodraeth y DU ar economi a chymunedau Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**
*Ychwaneger fel brawddeg newydd ar ddiwedd y cynnig:*

"Mae’n cydnabod bod baich treth y DU wedi codi o 35.2% o’r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth

neu £104 biliwn ym 1996/97 i 38.2% o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth neu £156 biliwn yn 2000/01. Mae hyn gyfystyr â chynnydd o £1 biliwn yr wythnos, sy'n golygu bod y DU erbyn hyn yn un o'r economïau â'r trethi uchaf yn y byd datblygedig".

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**
*Ychwaneger fel brawddeg newydd ar ddiwedd y cynnig:*

"Mae'n galw ar y Weinyddiaeth Lafur – Democratiaid Rhyddfrydol i gondemnio'r canlynol:

- gosod 'trethi trwy'r drws cefn' sydd wedi gwneud ein diwydiannau'n llai cystadleuol ac wedi rhwystro datblygiad entrepreneuraidd.
- lefel y dreth ar danwydd, sy'n cosbi'n cymunedau gwledig a phawb sy'n dibynnu ar eu cludiant eu hunain.
- peidio ag ymrwymo'n llwyr i Amcan 1.
- yr arian annigonol a roddwyd mewn ymateb i lifogydd, clwy'r traed a'r genau, twristiaeth a Corus.

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**
*Ychwaneger fel brawddeg newydd ar ddiwedd y cynnig:*

"Mae'n galw ar y Weinyddiaeth Lafur – Democratiaid Rhyddfrydol i roi'r gorau i'w holl gynlluniau i gyflwyno Treth Fusnes Leol".

**4. William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**
*Ychwaneger fel brawddeg newydd ar ddiwedd y cynnig:*

"Mae'n cydnabod bod polisi'r DU i ariannu mentrau yn uniongyrchol, yn arbennig ym meysydd iechyd ac addysg, trwy roi arian i ysbytai ac ysgolion yn galluogi'r darparwyr gwasanaeth hyn i ragweld eu hincwm yn gywirach a chynllunio'n fwy effeithiol".

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 41
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 40
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 7; Ymatal 11; Yn erbyn 23; Cyfanswm 41
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 41
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Y cynnig**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 39
**Gwrthodwyd y cynnig**

**11.57am**
**Eitem 7**
**Dadl Fer:** *NDM658* **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro); Bod yn Rhydd o GM ai Peidio.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.18pm.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 22 Mai 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 16 MAI 200**

Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001- LD802

Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft) (Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001- LD801

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 15 MAI 2001**

Pwyllgor Llywodraeth Leol A thai - Arolwg Polisi o Drosglwyddo Stoc Tai -LD796

Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001 - LD7800

Gorchymyn Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2001 - LD799

Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001 - LD798

Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001 - LD797

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001 - LD795

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2001 -LD794

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2001 LD793

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (Cychwyn Rhif 1) 2001 - LD792

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanaethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) - LD791

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001 - LD790

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001 - LD789

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001- LD788

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) (Cymru) 2001 - LD787

Adroddiad Gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Cig (Pwerau Gorfodi Ehangach) (Cymru) 2001- LD786

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 14 MAI 2001**

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 1999-2000 (LD785) - Dim Copi Electronig ar gael